Cylchlythyr Tymor yr Hydref 2022

Rydym yn falch iawn o groesawu plant newydd i'r ysgol. Dyma lun o'n plant bach Meithrin eleni. Maent wedi setlo'n arbennig o dda yn barod, ac wedi mwynhau gwneud gweithgareddau ar y thema 'Elfed yr Eliffant' a'r Hydref. Tu ôl iddynt mae ein arwydd newydd lliwgar sydd wedi cael ei greu gan yr arlunydd Dafydd Trefor. Diolch yn fawr i Phil, Coed Môn am ei osod i ni.

Gobeithio eich bod bellach wedi gweld trawsnewidiad lliwgar yr iard! Roedd gwên enfawr ar wyneb y disgyblion a'r staff wrth iddynt gamu ar y marciau am y tro cyntaf. Mae'r iard wedi cael ei pheintio gyda trawsdoriad eang o gemau rhif, iaith, cydweithio a chwaraeon. Mae hyd yn oed trac feics!

Braf oedd gallu cynnal sesiynau'r Urdd unwaith yn rhagor. Cafodd yr aelodau gyfle i aros ar ôl ysgol i wneud bob math o weithgaredddau diddorol megis dawnsio gwerin, gemau, crefftau a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i wasanaeth Diolchgarwch y Babanod. Roedd hi'n braf gweld neuadd lawn. Perfformiodd y plant yn wych! Roedd hi'r tro cyntaf i nifer ohonynt sefyll o flaen cynulleidfa.

CRhA:

Mae gan y Cymdeithas Rhieni ac Athrawon nôd o gasglu £5000 eleni. Bydd yr arian yma'n mynd tuag at dalu trafnidiaeth, ymweliadau ac i bobl ddod mewn i'r ysgol i rannu eu harbenigedd, fel bod yr ysgol yn gallu parhau i roi profiadau arbennig i'n disgyblion.

Mae'r CRhA wedi cael dechrau gwych i'r flwyddyn! Fe wnaeth y stondin deisennau a phanad yng Ngwyl Mabsant gasglu £235. Roedd y disgo Calan Gaeaf yn llwyddiannus iawn yn ogystal, a chasglodd y CRhA £256.82.

Babanod:

Yn rhan o'u thema 'Anifeiliaid Bach a Mawr', bu'r Cyfnod Sylfaen yn ymweld â Sw Bae Colwyn. Cafodd y plant ddiwrnod arbennig yn gweld bob math o anifeiliaid gwyllt.

Daeth milfeddyg i sgwrsio am ei gwaith â dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1. Diolch yn fawr i Iona Jones am y cyflwyniad diddorol. Mae'r disgyblion wedi mwynhau esgus bod yn filfeddygon yn eu hardal chwarae rôl yn ystod y tymor.

Wrth wneud gwaith ar y llyfr stori 'Y Teigr a ddaeth i de', penderfynodd disgyblion Blwyddyn 2 eu bod eisiau cynnal 'Te gyda'r Teigr' i'w rhieni. Roedd y disgyblion wedi bod yn brysur yn paratoi animeiddiad am deigrod a gwaith yr World Wildlife Fund. Fe wnaethon nhw berfformio'n arbennig o dda i'w rhieni.

Bu Blwyddyn 2 yn gweld cynhyrchiad o 'The Tiger that came to Tea' yn The Lowry ym Manceinion. Roedd y dosbarth yn llwyddiannus gyda'u cais am grant gan Cyngor Celfyddydau Cymru.

Adran Iau:

Cafodd disgyblion yr Adran Iau fynychu gwyl Hanes Cymru i blant yng Nghastell Biwmares. Mwynhaodd y plant sioe wych wedi'i selio ar y Mabinogi.

Bu Blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau cyfeiriannu yng Nghareg Lwyd. Diolch yn fawr i Môn Actif am y profiad.

Yn rhan o'u thema 'Chwedlau Môn', bu plant yr Adran Iau yn cydweithio gyda'r arlunydd Elen Williams i greu murlun. Mae'r gwaith yn werth ei weld ac mae'r plant wedi cael hwyl dda yn darlunio gwrachod Llanddona, Huw Cymunod chymeriadau a chwedlau eraill. Diolch i Elen am ei gwaith arbennig â'r plant.